



Asiantaeth Cymorth
Cyfreithiol

**Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith
Achos Cymorth Cyfreithiol 2013-14**



Asiantaeth Cymorth
Cyfreithiol

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol 2013-14

Adroddiad a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 7 (4) o'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 24 Mehefin 2014.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn: Legal Aid Agency, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ.

Print 9781474105958

Gwe 9781474105965

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 04061406 06/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Rhyngweithio â'r Arglwydd Ganghellor	2
Materion gwaith achos	3
Y strwythur gwneud penderfyniadau	4
Trosolwg o'r achosion a gyllidir	5
Apeliadau	6
Atebolrwydd	7
Casgliad	9

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ar gyfer 2013-14.

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'i fath yn dilyn gweithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 (y Ddeddf). Mae'n dogfennu'r gwaith a wnaed gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (yr Asiantaeth) wrth arfer fy swyddogaethau fel Cyfarwyddwr o dan y Ddeddf i wneud penderfyniadau ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol yng nghyd-destun cymorth cyfreithiol, ac rwyf wedi bod yn falch gyda'r ffordd y mae staff yn yr Asiantaeth wedi ymateb i'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf. Mae eu gwaith caled a'u hymrwymiad wedi sicrhau bod safonau gwasanaethau a phenderfyniadau wedi'u cynnal drwy gyfnod pontio a allai fod wedi bod yn un anodd.

Yn yr ychydig fisoedd cyntaf yn dilyn y Ddeddf, cafodd yr Asiantaeth ei boddi gan geisiadau am wasanaethau o dan y fframwaith cyfreithiol blaenorol. Dros y Pasg 2013, cafwyd 10,000 o geisiadau am gymorth cyfreithiol mewn ychydig ddyddiau. Ymatebodd yr Asiantaeth yn dda i'r her hon, gan gyflwyno trefniadau dros dro i ad-drefnu ei gweithlu i ymdrin â'r cynnydd heb effeithio ar safonau.

Mae'r sefydliad wedi parhau i addasu'n dda i'r newidiadau a wnaed o dan y Ddeddf. Wrth gwrs, cafwyd ambell fater ynysig sydd wedi codi o dan y fframwaith newydd. Caiff y rhain eu trafod yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r Asiantaeth wedi gweithio i adeiladu ar y gwelliannau i'w swyddogaethau rheoli achosion y dechreuwyd arnynt cyn gweithredu'r Ddeddf.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'n bwysig cynnal y dechrau cryf a wnaed o dan y cynllun newydd. Wrth i'r Asiantaeth barhau i weithredu cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio cymorth sifil cyfreithiol a throreddol, ac wrth i fentrau pellach i ehangu gweithio digidol gael eu cyflwyno, mae'r Asiantaeth yn ymrwymedig i sicrhau ei bod yn parhau i wneud penderfyniadau o ansawdd ac amserol ar achosion unigol.



Matthew Coats
Y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth
Cyfreithiol

24 Mehefin 2014

Cyflwyniad

1. Penodir y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (y Cyfarwyddwr) gan yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 4 y Ddeddf. Rôl y Cyfarwyddwr yw gwneud penderfyniadau ar gymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.
2. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithredu'n annibynnol ar yr Arglwydd Ganghellor ac mae prosesau a strwythurau mewnol clir wedi'u rhoi ar waith yn yr Asiantaeth i sicrhau bod yr annibyniaeth hon yn cael ei chynnal. Nodir y rhain yn fanylach yn yr adroddiad hwn.
3. Yn ymarferol, mae llawer o'r swyddogaethau a weithredir gan y Cyfarwyddwr yn cael eu dirprwyo i'r Asiantaeth. Mae'r Asiantaeth yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) a ddaeth i fodolaeth ar 1 Ebrill 2013. Dilynodd hyn ddiidymu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Corff Cyhoeddus Anadrannol a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a oedd wedi gwneud penderfyniadau ar gymorth cyfreithiol mewn achosion unigol yn flaenorol.
4. Gall yr un unigolyn fod yn Gyfarwyddwr ac yn Brif Weithredwr ar yr Asiantaeth. Ar hyn o bryd mae Matthew Coats yn gwneud y ddwy rôl. Fodd bynnag, mae trefniadau atebolrwydd ac adrodd gwahanol yn bodoli ar gyfer y ddwy rôl.
5. Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut y mae'r Cyfarwyddwr wedi cynnal y swyddogaethau a ymddiriedwyd yn benodol iddo o dan y Ddeddf dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r

Rhyngweithio â'r Arglwydd Ganghellor

- Asiantaeth yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar wahân, gan drafod cylch gwaith ehangach y sefydliad.
6. O dan y Ddeddf, mae'r Arglwydd Ganghellor yn gallu rhoi cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r Cyfarwyddwr ynghylch sut i gyflawni ei swyddogaethau, ond ni ddylai roi canllawiau o'r fath mewn perthynas â cheisiadau cymorth cyfreithiol unigol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ac ystyried unrhyw ganllawiau a roddir.
 7. Nid yw'r Arglwydd Ganghellor wedi rhoi unrhyw gyfarwyddiadau o dan y pwerau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae wedi cyhoeddi tair dogfen ganllawiau¹ Mae'r rhain fel a ganlyn:
 - a. Canllawiau'r Arglwydd Ganghellor ar Gymorth Cyfreithiol Sifil
 - b. Canllawiau'r Arglwydd Ganghellor ar Gyllid Eithriadol (Nid Cwestau)
 - c. Canllawiau'r Arglwydd Ganghellor ar Gyllid Eithriadol (Cwestau)
 8. Wrth gwrs, mae'n hanfodol bod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cymorth cyfreithiol a osodir gan yr Arglwydd Ganghellor yn cael eu defnyddio mewn modd cyson. I baratoi at y Ddeddf yn dod i rym, rhoddwyd cryn hyfforddiant i holl weithwyr achos yr Asiantaeth, wedi'i deilwra yn ôl rôl benodol pob tîm gwaith achos.
 9. Fel sy'n ofynnol gan Ddogfen Fframwaith yr Asiantaeth, mae'r Cyfarwyddwr hefyd wedi cyfarfod yn ffurfiol â'r Arglwydd Ganghellor i drafod sut y mae wedi cynnal ei swyddogaethau yn ystod 2013-14.² Yn y cyfarfod hwn, a gynhaliwyd ar 3

¹ Mae'r dogfennau hyn ar gael ar y dudalen ganlynol ar wefan yr Asiantaeth: <http://www.justice.gov.uk/legal-aid/funding/funding-guidance>

² Gweler paragraff 3.25 (<http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/legal-aid-agency/laa-framework.pdf>).

Materion gwaith achos

- Ebrill 2014, rhoddod y Cyfarwyddwr y diweddaraf i'r Arglwydd Ganghellor ar ei flwyddyn gyntaf yn Gyfarwyddwr ac amlygodd rai o'r tueddiadau sydd wedi dod i'r amlwg dros flwyddyn gyntaf y cynllun cymorth cyfreithiol newydd. Roedd hyn yn cwmpasu materion yn ymwneud â'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol ac ymglyfreitha parhaus.
10. O ystyried maint y newidiadau a wnaed i gymorth cyfreithiol sifil, roedd yn anochel y byddai rhai heriau wrth weithredu. Hyd yma mae dau fater gwaith achos nodedig wedi codi.
 11. Y mater cyntaf oedd lle rhoddwyd cymorth cyfreithiol mewn nifer o achosion er ei bod yn ymddangos bod y darparwyr yn nodi bod yr achos dan sylw yn addas ar gyfer cytundeb ffi amodol (CFA)³. Mae'r Asiantaeth bellach wedi adolygu'r holl achosion yr effeithiwyd arnynt. Ym mhob un ohonynt bron, mae'r cyfreithiwr wedi cadarnhau eu bod mewn gwirionedd wedi bwriadu nodi nad oedd cytundeb ffi amodol yn addas ar gyfer y mater hwnnw. Achos y dryswch oedd newid yng ngeiriad un o ffurflenni'r Asiantaeth nad oedd rhai darparwyr wedi sylwi arno. Ar ôl hysbysu'r Asiantaeth am y mater, anfonodd gyfathrebiadau yn rhoi gwybod i'r holl ddarparwyr am y geiriad newydd ar y ffurflen a rhoddwyd gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod unrhyw wrthdaro ar y ffurflen yn cael ei wirio cyn gwneud penderfyniad.
 12. Roedd yr ail fater gwaith achos yn ymwneud â darparu cymorth cyfreithiol i wrandawiadau traddodi sy'n codi o fewn gweithrediadau sifil. Cadarnhaodd penderfyniad yr Uchel Lys ym mis Tachwedd 2013 fod y newidiadau sy'n deillio o'r Ddeddf yn golygu y byddai'r gwrandawiadau hyn bellach o dan gymorth cyfreithiol troseddol yn hytrach na sifil. Mae hyn yn creu'r potensial ar gyfer cymorth sifil a throeddol cymysg i unigolyn o fewn yr un gweithrediadau, ac mae hefyd yn codi'r cwestiwn ynghylch ai cyfrifoldeb y llysoedd neu'r Asiantaeth yw rhoi gorchmynion cynrychiolaeth cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer yr achosion traddodi. Mae'r Asiantaeth ar hyn o bryd yn ymchwilio a oes angen gwneud unrhyw newidiadau gweithredol, neu gyfathrebu pellach, i egluro'r pwynt hwn.
 13. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar y wybodaeth a roddir mewn ffurflenni cais. Dros y flwyddyn ddiwethaf, un thema gyffredin fu diffyg gwybodaeth ar y cam cyntaf a all arwain at gost ac oedi ychwanegol i'r Asiantaeth, darparwyr cymorth cyfreithiol a'r cleient sy'n gwneud y cais. Mae'r Asiantaeth wedi cymryd camau i wella ffurflenni cais i sicrhau bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn gliriach i ddarparwyr a bydd yn parhau i ymgysylltu â darparwyr drwy ei thim o reolwyr contractau i wella ansawdd y ceisiadau a gyflwynir.

3 O dan Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) 2013 gellir rhoi llawer o geisiadau am Gynrychiolaeth Cyfreithiol lle "nad yw'r achos yn addas ar gyfer cytundeb ffi amodol".

Y strwythur gwneud penderfyniadau

14. I sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn annibynnol ac yn gyson, mae'r Asiantaeth wedi sefydlu strwythur sefydliadol cadarn gyda nifer o ddulliau adolygu. Mae penderfyniadau ar achosion unigol yn cael eu gwneud gan weithwyr achos yng nghyfarwyddiaeth Rheoli Achosion yr Asiantaeth. Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn cael ei rheoli gan Shaun McNally CBE, y Cyfarwyddwr Rheoli Achosion.
15. Mae'r gyfarwyddiaeth Rheoli Achosion wedi'i rhannu yn dri grŵp, gyda phob grŵp yn cael ei reoli gan Ddirprwy Gyfarwyddwr:
 - a. Rheoli Achosion Sifil
 - b. Rheoli Achosion Troseddol
 - c. Achosion Cost Uchel
16. Mae timau teilyngdod, modd a bilio ar wahân o fewn Rheoli Achosion Sifil, yn ogystal â dau dîm penodol ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid. O fewn Rheoli Achosion Troseddol, ceir tîm gweithrediadau sy'n penderfynu ffioedd, yn awdurdodi taliadau, ac yn ymdrin â gohebiaeth gysylltiedig, yn ogystal â Thîm Llysoedd Cenedlaethol, sy'n ymdrin â phrofi modd mewn achosion troseddol.
17. Mae'r grŵp Achosion Cost Uchel yn ymdrin â'r achosion mwyaf drud a chymhleth sy'n cael eu cyllido gan yr Asiantaeth. Mae'r timau hyn yn cael eu staffio gan gyfran uwch o gyfreithwyr i gynorthwyo gwneud penderfyniadau effeithiol o ran teilyngdod. Y tri thîm sy'n rhan o'r Achosion Cost Uchel yw: y Tîm Sifil Cost Uchel, y Tîm Troseddol Cost Uchel a'r Tîm Cyllid Achos Eithriadol.
18. Sefydlwyd y Tîm Cyllid Achos Eithriadol gan yr Asiantaeth i brosesu ceisiadau am Gyllid Achos Eithriadol a wnaed o dan adran 10 o'r Ddeddf. Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol sifil nad ydynt fel arfer o fewn cwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol, ond lle byddai methu darparu cymorth cyfreithiol yn torri, neu lle ceir risg sylweddol o dorri:
 - a. hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998); neu
 - b. unrhyw hawliau'r unigolyn i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n hawliau'r UE y gellir eu gorfodi.
19. Mae Cyllid Achos Eithriadol yn gynllun newydd i'r Asiantaeth ei weinyddu, ac oherwydd cymhlethdodau'r materion cyfreithiol a oedd yn debygol o godi (e.e. y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chyfraith yr UE), mae'r Tîm Cyllid Achos Eithriadol yn cynnwys cyfreithwyr cyhoeddus profiadol.
20. Mae prosesau wedi'u rhoi ar waith i ddarparu dull sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd cadarn ar gyfer y ceisiadau hyn. Yn arbennig, rhaid i'r Prif Gyngorydd Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Achosion Cost Uchel gymeradwyo pob Cyllid Achos Eithriadol a roddir. Gellir herio penderfyniadau drwy gais am adolygiad mewnol ac, hyd yma, mae ychydig dros 25% o'r holl benderfyniadau wedi'u hadolygu. Cadarnhaodd mwyafrif helaeth yr adolygiadau hyn y penderfyniad gwreiddiol.

Trosolwg o'r achosion a gyllidir

21. Er gwaethaf y newidiadau i gwmpas cymorth cyfreithiol, mae'r Asiantaeth yn dal i ymdrin â nifer mawr o geisiadau am gymorth cyfreithiol ar draws categorïau gwahanol o gyfraith. Ceir data ar nifer y ceisiadau ar gyfer 2013-14 wedi'i gynnwys yn Adroddiad Ystadegol 2013-14 yr Asiantaeth.

Cyfraith breifat teulu – Gofynion tystiolaeth

22. Un o'r agweddau pwysicaf ar y diwygiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf oedd y newid i gwmpas cymorth cyfreithiol sifil ac yn arbennig dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer y rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat teulu. Mae cyllid ar gyfer yr achosion hyn bellach ar gael dim ond lle mae'r mater yn cynnwys trais domestig neu gam-drin plant, ac mae angen darparu tystiolaeth benodol cyn y gellir rhoi cyllid.
23. Y mathau mwyaf cyffredin o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i fodloni'r gofynion tystiolaethol trais domestig ar gyfer gwaith wedi'i Reoli a'i Ardystio oedd gwaharddeb amddiffynnol, tystiolaeth bod cleient wedi'i dderbyn i loches neu lythyr gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol. Y ffurfiau mwyaf cyffredin o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i fodloni'r gofynion tystiolaethol amddiffyn plant ar gyfer gwaith wedi'i Reoli a'i Ardystio oedd llythyr gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau bod cynllun amddiffyn plant yn ei le, llythyr gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau bod y plentyn a oedd yn destun y gweithrediadau wedi'i asesu fel mewn perygl neu gollfarn heb ddarhod berthnasol neu rybudd gan yr heddlu am drosedd amddiffyn plant.

Cyllid Achos Eithriadol

24. Erbyn 31 Mawrth 2014, roedd yr Asiantaeth wedi derbyn 1,520 o geisiadau o dan y cynllun Cyllid Achos Eithriadol newydd.
25. Teulu yw'r categori mwyaf o gyfraith y gwneir cais amdano o dan y cynllun Cyllid Achos Eithriadol. Dilynir hyn gan fewnfudo a chwestau. Gyda'i gilydd, mae'r tri chategori yn ffurfio mwyafrif helaeth y ceisiadau am Gyllid Achos Eithriadol.
26. Ar ddechrau'r flwyddyn, pan oedd darparwyr yn ymgyswrtu â darpariaethau'r Ddeddf, roedd nifer sylweddol o geisiadau am gategoriâu o gyfraith a oedd yn dal o fewn y cwmpas. Er i'r ceisiadau Cyllid Achos Eithriadol hyn gael eu gwrthod, trosglwyddwyd y ceisiadau hyn i'r timau sifil o fewn cwmpas yn yr Asiantaeth i'w penderfynu. Felly cafodd llawer o'r ceisiadau hyn eu rhoi yn y pen draw. Mae cynefindra darparwyr â'r diwygiadau wedi gwella dros y flwyddyn a gostyngodd nifer y ceisiadau a wrthodwyd am fod o fewn cwmpas yn ystod misoedd diwedd 2013-14.

Apeliadau

27. Lle mae unigolyn yn anghytuno â phenderfyniad y Cyfarwyddwr nad ydynt yn gymwys am gynrychiolaeth gyfreithiol neu gymorth teuluol (uwch), gallant wneud cais i Ddyfarnwr Cyllid Annibynnol i'r penderfyniad hwnnw gael ei ailystyried (ac eithrio lle mae'r cais hwnnw am Gyllid Achos Eithriadol).
28. Mae penderfyniad y Dyfarnwr Cyllid Annibynnol ar rai materion yn gyfrwytol ar y Cyfarwyddwr. Mae'r rhain fel a ganlyn: unrhyw asesiad o'r rhagolygon o lwyddiant achos, a yw mater o bwys sylweddol i'r cleient, cymhareb cost a budd y gweithrediadau, a chyflawni neu ddirymu ar sail ymddygiad y cleient. Bydd argymhellion eraill yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r Cyfarwyddwr i'w hailystyried.
29. Sefydlwyd Panel Adolygu Apeliadau Cyllid a Chostau newydd ar 1 Ebrill 2013 i ymdrin â'r apeliadau hyn. Nid yw'r aelodau'n gyflogeion yr Asiantaeth ac maent yn gweithredu'n annibynnol. Ceir hefyd Banel Adolygu Rheolaethau Arbennig (SCRIP), sy'n ystyried apeliadau sy'n ymwneud â rhai achosion cost uchel ac achosion eraill mwy cymhleth. Mae'r SCRIP yn eistedd fel panel o dri, ond mae Dyfarnwyr Cyllid Annibynnol yn gweithredu ar wahân ac yn unigol ar geisiadau ysgrifenedig.
30. Mae'r Panel Adolygu Cyllid yn cynnwys 162 o gyfreithwyr a bargyfreithwyr a ddewiswyd yn ôl eu gwybodaeth gyfreithiol a'u harbenigedd i benderfynu ar apeliadau. Mae effeithlonrwydd ac ansawdd eu penderfyniadau yn cael eu monitro'n
- rheolaidd ac mae rheolwr o'r Asiantaeth yn cyfarfod â'r Cadeirydd ac Is-gadeiryddion bob chwarter i adolygu'r llwyth gwaith, amseroldeb ac ansawdd y penderfyniadau a wneir gan aelodau'r panel, yn ogystal â chasglu unrhyw bwyntiau dysgu ar gyfer yr Asiantaeth.

Canlyniadau apeliadau

31. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr apeliadau a gyflwynwyd gan ymgeiswyr yn 2013-14 ynghyd â chanlyniadau'r apeliadau:

Nifer yr apeliadau a gyflwynwyd i Ddyfarnwr Cyllid Annibynnol	2704
Nifer yr apeliadau a gadarnhawyd gan Ddyfarnwr Cyllid Annibynnol	480
Nifer yr apeliadau a gyflwynwyd i SCRIP	68
Nifer yr apeliadau a gadarnhawyd gan SCRIP	17

Atebolrwydd

32. Mae'n bwysig bodd y modd y mae swyddogaethau'r Cyfarwyddwr yn cael eu cynnal yn agored i graffu cyhoeddus. Mae nifer o ddulliau yn eu lle sy'n galluogi partïon â diddordeb i ddal y Cyfarwyddwr i gyfrif. Yn arbennig, mae gan yr Asiantaeth weithdrefn gwynion fewnol gyda'r posibilrwydd o anfon yr apêl ymlaen at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd.
33. Fel corff cyhoeddus, gellir craffu ar yr Asiantaeth drwy'r holl ddulliau cyfansoddiadol safonol hefyd. Er enghraifft, gall Aelodau Seneddol ac Arglwyddi gyflwyno cwestiynau seneddol yn holi am waith a wnaed gan y Cyfarwyddwr. Yn yr un modd, gall y cyhoedd gyflwyno ceisiadau am wybodaeth a gedwir gan yr Asiantaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Cwestiynau Seneddol a cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

34. Yn 2013-14 cafodd yr Asiantaeth 26 o geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ymwneud â swyddogaethau'r Cyfarwyddwr. Gan mwyaf, roedd y cwestiynau'n gysylltiedig â gweithredu cynllun y Cyllid Achos Eithriadol. Yn gyffredinol, roedd gan y rhai a wnaeth geisiadau ddiddordeb yn nifer y ceisiadau a gafwyd ac a roddwyd, ond gofynnwyd hefyd am amrywiaeth o wybodaeth gefndir (e.e. dogfennau cyfarwyddyd).
35. Yn 2013-14, cyflwynwyd chwe chwestiwn seneddol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn ymwneud â swyddogaethau'r Cyfarwyddwr. Unwaith eto, roedd pob un o'r rhain yn ymwneud â'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol ac roedd y canolbwynt ar nifer y ceisiadau a gafwyd ac a roddwyd, yn ogystal â faint o amser mae'n ei gymryd i'r Asiantaeth wneud penderfyniad. Roedd y lefel hon o graffu i'w disgwyl o ystyried pwysigrwydd y cynllun Cyllid Achos Eithriadol o fewn diwygiadau'r Ddeddf.

Cwynion

36. Mae'r Asiantaeth yn ymchwilio'n drylwyr i bob cwyn y mae'n ei derbyn, gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno dwy haen. Mae'r gŵyn gychwynnol yn rhoi'r cyfle i'r Asiantaeth adolygu'r ffordd yr ymdriniwyd â'r mater yn lleol a datrys y sefyllfa os yw hynny'n bosibl. Os na fydd unigolyn neu ddarparwr yn fodlon ar yr ymateb cychwynnol, gallant drosglwyddo eu cwyn i Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Canolog yr Asiantaeth ac yna'n derfynol at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy eu AS lleol. Nid oes gan yr Asiantaeth gofnod o unrhyw faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyfarwyddwr o dan y Ddeddf yn cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon y llynedd.
37. Nid yw'r Asiantaeth yn cofnodi ar wahân gwynion sy'n ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Cyfarwyddwr; fodd bynnag mae cyfran sylweddol o'r holl gwynion y mae'r Asiantaeth yn eu cael yn ymwneud ag achosion unigol a phenderfyniadau gwaith achos.

Ymglyfreitha

38. Mae ymglyfreitha yn y llysoedd yn llwybr arall o wneud iawn y gellir ei ddefnyddio i ddwyn y Cyfarwyddwr i gyfrif. Yn arbennig, fel rhan o gorff cyhoeddus gall penderfyniadau'r Cyfarwyddwr gael eu herio drwy adolygiad barnwrol.

39. O ystyried y newidiadau helaeth a gyflwynwyd i'r cynllun cymorth cyfreithiol, roedd disgwyl i ymglyfreitha egluro rhai o'r ffiniau, ac ar y cyfan mae lefel yr ymglyfreitha yn is na'r disgwyl. Ar ôl dweud hynny, cafwyd nifer o wrandawiadau yn 2013-14 gyda rhagor wedi'u rhestru ar gyfer 2014-15.
40. Bu heriau mewnfudo yn elfen gref, mewn perthynas â chyllid mewn cwmpas o dan y Ddeddf ac, yn ôl y disgwyl, y cynllun Cyllid Achos Eithriadol. Lle gellid bod wedi dysgu gwersi mae'r Asiantaeth wedi sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd i wella ei hymagwedd yn y dyfodol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

41. Mae'r Asiantaeth yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED) o dan adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asiantaeth wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i roi sylw dyledus i gydraddoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig o ystyried y newidiadau i gymorth cyfreithiol a gyflwynwyd gan y Ddeddf.
42. Ym mis Ebrill 2013, mabwysiadodd yr Asiantaeth gyfres o flaenoriaethau amrywiaeth, ac mae un ohonynt – "gwella ein gallu a'n hadnoddau i gymhwyso'r ddyletswydd cydraddoldeb i'n gwaith o gyflawni cymorth cyfreithiol" – yn berthnasol iawn i rôl y Cyfarwyddwr.⁴
43. Yn ystod 2013-14 cymerodd yr Asiantaeth gamau i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, roedd yr Asiantaeth wedi'i gwneud yn
- ofynnol i staff gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar y PSED, a rhoddwyd arweiniad ar y ddyletswydd i aelodau'r Panel Adolygu Cyllid a Chostau. Mae'r Asiantaeth hefyd yn annog y rhai sy'n gyfrifol am adolygu penderfyniadau i chwarae rôl weithredol o ran adolygu a yw penderfyniadau'n cydymffurfio â'r PSED yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r angen i ystyried cydraddoldeb yn eu penderfyniadau eu hunain.
44. Ym mis Ebrill 2013, dechreuodd yr Asiantaeth gasglu cyfres ddiwygiedig o wybodaeth am gydraddoldeb gan ymgeiswyr cymorth cyfreithiol gyda'r bwriad o wella perthnasedd ei gwybodaeth am reoli er mwyn rhagweld anghenion yn well.
45. Mae'r Cyfarwyddwr wedi adolygu'r wybodaeth am gyfle cyfartal y mae ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol wedi'i darparu yn ystod 2013-14 ac nid oes tueddiadau newydd nac annisgwyl na materion o bryder. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod yr Asiantaeth yn parhau i wasanaethu pobl ag anableddau, grwpiau ethnig amrywiol a chleientiaid gwrywaidd a benywaidd. Mae newidiadau i ffurflenni'r Asiantaeth wedi darparu mwy o wybodaeth am nifer y cleientiaid a all fod yn ddall, â nam ar y golwg, yn fyddar, yn drwm eu clyw, ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi data ystadegol sy'n ymwneud â'r amrywiaeth o gleientiaid cymorth cyfreithiol fel rhan o Adroddiad Ystadegol 2013-14 yr Asiantaeth, a bydd y Cyfarwyddwr yn adolygu'r wybodaeth hon dros y flwyddyn nesaf.

4 Mae Adroddiad Blynyddol a Chynllun Busnes yr Asiantaeth yn adrodd ar wahân ar waith ehangach yn erbyn y blaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Casgliad

46. Mae wedi bod yn flwyddyn gyntaf brysur a heriol fel y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol. Roedd y gwaith gofalus o ran cynllunio a threfniadau wrth gefn a roddwyd yn ei le cyn y Ddeddf wedi talu ar ei ganfed o ran gallu'r Asiantaeth i ymdrin â'r cynnydd yn nifer yr achosion cyn i'r Ddeddf ddod i rym a'r heriau dyddiol a wynebwyd gan dimau gwaith achos o ran gwneud penderfyniadau effeithiol o dan gynllun cymorth cyfreithiol gwahanol iawn.
47. Dros y flwyddyn nesaf, bydd yr Asiantaeth yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf y Ddeddf i sicrhau bod proses y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol o wneud penderfyniadau yn parhau'n gyson, yn dryloyw ac, yn anad dim, yn annibynnol yn ystod cyfres arall o ddiwygiadau o fewn y rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol.
48. Mae copi o'r adroddiad hwn wedi'i anfon at yr Arglwydd Ganghellor yn unol ag adran 7(3) o'r Ddeddf. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gosod copi o'r adroddiad gerbron Senedd y DU.

ISBN 978-1-4741-0595-8



9 781474 105958